## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **07 Mai 05**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Fiona Gordon | Adran Etholiadol: | Y Castell |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Euthum i gymorthfeydd ward y rhan fwyaf o ddyddiau Sadwrn: rhwng pedwar aelod y Castell, fe wnaethom rannu'r cyfrifoldeb hwn fel bod o leiaf ddau ohonom yn mynd bob wythnos. Hefyd, fe wnaethom rannu mynd i gyfarfodydd PACT a phreswylwyr. Roeddwn yn aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol St Phillips ac euthum i gyfarfodydd misol yno. Roeddwn yn weithgar yng Ngrŵp Cyfeillion Parc Brynydon, lle euthum i gyfarfodydd a helpu i drefnu digwyddiadau yn y parc. Roedd etholwyr yn gallu cysylltu â fi dros y ffôn a thrwy e-bost. Roeddwn yn aml yn ymdrin â materion ward arferol megis palmentydd, baw cŵn, goleuadau, parcio a sbwriel, wrth fynd am dro yn yr ardal.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 2 | / | 12 | 17 | % |
| Y cyngor | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 | / | 8 | 88 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 12 | / | 12 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 3 | / | 3 | 100 | % |
| CYFFREDINOL | 38 | / | 50 | 76 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Roeddwn yn aelod o'r Panel Craffu ar Berfformiad Ysgolion, gan gymryd diddordeb arbennig ym materion addysg. O'r panel hwn a'r arolygiad Estyn, roedd yn amlwg bod angen craffu ar ddarpariaeth addysg heblaw'r ysgol, ac roeddwn yn rhan o'r grŵp a oedd yn dilyn hyn. Euthum i'r Grŵp Gweithredu Cydlyniant Cymunedol pan oedd modd, gan fod cysylltiadau amlwg â gwaith cydraddoldeb. Cysylltais â'r Cynghorydd Mitch Theaker ynglŷn â'i arweiniad ar elfen trosedd casineb y Cynllun Gweithredu CoCo. Roeddwn yn aelod o'r Gweithgor Bywyd Nos Iach, gan fod ardal y Castell yn rhan arwyddocaol o'r cynllun gwaith. Euthum i gyfarfodydd y Pwyllgor Trwyddedu pan oeddwn yn teimlo'r angen i herio ceisiadau penodol yn fy ward. Roeddwn yn aelod o Gyngor Llyfrau Cymru ac euthum i gyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn yn Aberystwyth. Euthum i gyfarfodydd Clwstwr y De Cymunedau'n Gyntaf, a chymryd diddordeb mewn sut mae'n bodloni ei dargedau ac yn cefnogi cymunedau. Roeddwn yn llywodraethwr yn Ysgol Arbennig Crug Glas ac Ysgol Gynradd Waun Wen, ac roeddwn yn aelod o'u his-bwyllgorau amrywiol.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Roeddwn yn weithgar wrth ddatblygu Grŵp Cyfeillion Parc Brynydon, yn gweithio gyda phreswylwyr, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs), Cymunedau'n Gyntaf a grwpiau lleol (preswylwyr a Chanolfan Maesglas) i greu grŵp cryf o bobl ymroddedig sy'n gweithio i wella ac estyn defnydd y parc. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rôl allweddol - gyda phreswylwyr - wrth drefnu diwrnodau i'r teulu, digwyddiad agor a sesiynau casglu sbwriel.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r cyrsiau hyfforddi canlynol:

22/01/2014 - Rheolau Trafod
25/11/2013 - Arfer Adferol
25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
14/10/2013 - Cyn-benderfynu
Dyddiadau amrywiol – Academi Arweinyddiaeth

Rwyf hefyd wedi cael hyfforddiant mewn sawl maes cydraddoldeb megis hil, rhyw a rhywioldeb, cyfranogiad plant/pobl ifanc, gofalwyr ifanc a thrais yn y cartref. Yn ddiweddar, euthum i hyfforddiant ar faterion diogelu plant a diwylliannol.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Yn ystod blwyddyn ddinesig 2013-2014, cadeiriais y Pwyllgor Cydraddoldeb ac rwyf wedi arwain y grŵp mewn cyfarfodydd misol ac ymweliadau allgymorth. Roedd yr ymweliadau hyn yn archwilio sut mae adrannau wedi bod yn bodloni eu hamcanion cydraddoldeb a amlinellwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae arweinwyr (rheolwyr y meysydd gwasanaeth hyn) wedi'u gwahodd i gyflwyno i'r pwyllgor ar eu cynnydd, yr heriau maent wedi'u goresgyn a'r llwyddiannau canlynol.
Hefyd, arweiniais gyfarfodydd chwarterol yr Hyrwyddwyr Cydraddoldeb.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

9 Mai 2013 – 30 Gorffennaf 2013 Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb - £21,900 (y flwyddyn pro-rata)
31 Gorffennaf 2013 – 7 Mai 2014 Cyflog Sylfaenol - £13,175 (y flwyddyn pro-rata)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14.05.14 |